CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION MAWRTH 16, 2021

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar Zoom
Nos Fawrth, Mawrth 16, 2021 am 7:30 o'r gloch.

www.cyngorllanfachreth.cymru

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Karen G. Goswell, Gerallt Griffith, Llion Rh. Williams, Rhun Prys Jones, Emlyn Roberts, Barry Jones, Geraint Evans. Hefyd Henry M. Edwards.

1. Croeso'r Cadeirydd Croesawyd pawb.

2. Ymddiheuriadau: Mordaf Roberts a Meurig Ashton.

3. Datgan diddordeb.

Doedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 16, 2021

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 16, 2021

Nid oedd materion yn codi.

6. Gohebiaeth

a. Llythyr (17/2/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mawrth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (26/2/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd adroddiad Dr Simon Brooks – ''Ail Gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru'' yn cael ei gyhoeddi, ac mi fydd yn cynnal gweminar yn trafod canfyddiadau ei adroddiad. Bydd dau ddigwyddiad yn cael eu trefnu, un yn y Gymraeg a'r llall yn Saesneg. Cynhelir y digwyddiad drwy gyfrwng y Gymraeg am 16:30 dydd Iau 4 Mawrth ac yn Saesneg am 17:45 dydd Iau 4 Mawrth. I gofrestru mae angen cysylltu â Rhys.Davies@llyw.cymru erbyn 12:00 o'r gloch brynhawn Mercher 3 Mawrth, gan nodi pa gweminar byddwn yn dymuno mynychu.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Mae gan Cyngor Gwynedd gynllun i brynu tai Cyngor pan fyddant yn dod ar y farchnad.

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

1. NP5/54/LB210C. Trosi adeiladau cwrtil prif adeilad Caerynwch yn bedwar bwthyn. Trosi adeilad modurdy a storfa goed bresennol yn fwthyn un ystafell wely. Trosi'r modurdy pedwar bae a llofft trosodd yn fwthyn dwy ystafell wely. Adeilad ac unedau preswyl presennol tros y stablau i'w trosi yn fythynnod dwy ystafell wely gefn yn gefn ar holl waith perthnasol. Caerynwch, Brithdir. LL40 2RF.

Penderfynwyd cefnogi'r cais cynllunio.

2. NP5/54/LB210D. Caniatâd Adeilad Rhestredig i drosi tri adeilad cwrtil prif dŷ Caerynwch yn bedwar bwthyn. Modurdy a storfa goed i'w trosi yn fwthyn un ystafell wely, gyda chegin/ystafell fyw cynllun agored, llosgwr coed a ffliw drwy'r to talcen drychiad De estyniad ystafell ymolchi unllawr wedi ei gwydro'n rhannol ac agoriadau presennol drychiadau Dwyreiniol a Gorllewinol wedi cau ac unedau gwydr hyd lawr. Certws pedwar bae i'w cau a phaneli gwydr hyd lawr gydag estyniad ffrâm bren yng nghefn yr adeilad sydd yn llety i'r grisiau sy'n arwain i'r ystafell wely nenfwd, rhan o wal fewnol Orllewinol i'w thynnu lawr a'i gwydro a phaneli i'r ystafell ymolchi. Stablau a deunydd preswyl presennol uwchben i'w trosi yn ddau fwthyn gefn yn gefn a chegin ac ystafell fyw cynllun agored llawr daear gyda grisiau yn arwain at ystafell wely 'en-suite', ystafell ymolchi ac ystafell wely 2 ar y llawr cyntaf. Estyniad ffrâm bren a gwydr tros y fynedfa grisiau allanol drychiad Dwyreiniol ar holl waith perthnasol. Caerynwch, Brithdir. LL40 2RF:

Penderfynwyd cefnogi'r cais cynllunio.

Anfonwyd llythyr (25/2/2021) i'r Parc yn holi beth yw polisi'r Parc ynglŷn â chynlluniau o'r fath, yn enwedig eu bwriad i drosi adeiladau i ymwelwyr aros.

b. Llythyr (9/3/2021) copi o'r cyflwyniad a wnaed i Bwyllgorau Ardaloedd Arfon Dwyfor a Meirionnydd gan Angela Jones ar Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri 2020.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

8. Materion Ariannol

a. Llythyr (19/2/2021) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi gwybod maent wedi clustnodi £500 o'u cronfa tuag at gostau hysbysfwrdd yn Llanfachreth. (Gweler Eitem 8.ch. yn Cofnodion Chwefror 16, 2021),

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd archebu'r hysbysfwrdd.

b. Llythyr (25/2/2021) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda eu Hadroddiad Blynyddol Chwefror 2021 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021. Mae'r adroddiad ar we
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2021 i 2022
Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.
Taliadau tuag at gostau a threuliau:
Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.

Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn y taliad £150 os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.
Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:
Gall cyngorau dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy, sef 45c y filltir (lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi).

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Nid oedd yr aelodau angen y taliad £150.

c. Llythyr (24/2/2021) oddi wrth Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd o £50.

ch. Cerdyn (1/3/2021) oddi wrth Neuadd Brithdir yn diolch am ein rhodd o £600.

d. Llythyr (2/3/2021) oddi wrth Urdd Gobaith Cymru yn diolch am ein rhodd o £100.

dd. Llythyr (16/3/2021) oddi wrth Neuadd Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £600.

e. Llythyr (16/3/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen Aelodaeth yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2021 / 2022. Tâl Aelodaeth yw £141.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd talu'r aelodaeth.

f. Bil am £204.00 oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/42021 ac am gyflwyno cyflog misol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60.

Penderfynwyd talu'r bil.

ff. Taliad i Meurig Ashton am dorri'r llwybrau.

Penderfynwyd codi'r taliad o £7 yr awr i £15 yr awr.

g. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 28 Chwefror, 2021: £1,141.31.
Balans yn y banc ar 28 Chwefror, 2021: £5,458.99. (29/2/2020: £763.94).

9. Archwilio

a. Anfonwyd llythyr (16/3/2021) i Uned Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt barhau i archwilio ein dogfennau.

10. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Roedd dŵr yn hel ar y ffordd rhwng Maes yr Helmau a Brithdir oherwydd bod cylfat ar dir Pen-y-Garreg yn achosi dŵr i orlifo i'r ffordd. Gofynnodd Swyddog o Priffyrdd i berchenogion Pen-y-Garreg dorri coeden oedd yn tyfu ar ben ceg y cylfat a chlirio carreg fawr oedd yn rhwystro dŵr i redeg i mewn i'r cylfat.

b. Penderfynwyd mynd i gysylltiad â Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

1. cael y rheswm am godi wal cynnal tir ddim yn bell o'r groesffordd ar Ffordd Lefel. Mae canmoliaeth i'r gwaith ac mae rheswm digonol i wario ar y safle penodol yma.

2. cael gwybod pa bryd mae'r gwaith o adnewyddu cynnal y Ffordd Lefel am ddechrau i sicrhau y bydd y ffordd ar agor i drigolion y fro.

3. cael gwybod pa bryd bydd gwaith adnewyddu 'crash barrier' ger Capel Ffrwd, Llanfachreth.

11. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd gofyn i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri pa ganiatad sydd wedi ei roi i ddatblygu tŷ/tai annedd yn y goedwig yn Brithgwm, Rhydymain.

Llofnod: Dyddiad: